

Triniaeth cyn llawdriniaeth: Llawdriniaeth ar y Croen

Triniaeth Lawfeddygol dan Anaesthetig Leol

Gofynnwyd i chi fynd i ***Glinig Gweld a Thrin** neu Uned Triniaeth Dermatoleg yn dilyn atgyfeiriad gan eich meddyg teulu neu apwyntiad Teledermatoleg ar gyfer triniaeth lawfeddygol ar y croen i drin ardal (e.e. tynnu man geni) neu ar gyfer diagnosis (biopsi).

Clinig Gweld a Thrin - Cewch eich archwilio ac os oes angen ac os yw ar gael, caiff *triniaeth* i'w chynnal ar yr un diwrnod ei chynnig i chi.** Mae'n werth darllen hwn cyn eich apwyntiad. Os na allwch gael y driniaeth ar y diwrnod, ***bydd amser a dyddiad amgen yn cael eu trefnu.

- Bydd y fân llawdriniaeth yn digwydd yn un o'n hystafelloedd triniaethau Dermatoleg.
- Gwneir yr ardal yn ddideimlad gyda phigiad o anesthetig lleol. Byddwch ar ddihun.
- Bydd rhywfaint o groen yn cael ei dynnu, gall y clwyf gael ei bwytho a'i orchuddio â rhwymyn.
- Mae'r rhan fwyaf o driniaethau'n cymryd 10 - 45 munud, yn dibynnu ar y driniaeth sydd ei hangen.
- Byddwch yn mynd adref yr un diwrnod. Bydd angen i rywun eich gyrru adref - ni ddylech yrru eich hun.
- Yn ddelfrydol, dewch â pherthynas gyda chi rhag ofn y byddwch yn teimlo'n sâl neu'n gysglyd yn dilyn y driniaeth.
- Mae'r risgiau'n gysylltiedig ag unrhyw driniaeth ar y croen yn cynnwys gwaedu, cleisio, heintio, poen, creithio ac yn anaml iawn, niwed i'r nerfau.

Cyn eich apwyntiad:

- Gallwch yfed a bwyta fel arfer cyn y driniaeth.
- Cymerwch eich meddyginiaethau arferol oni bai y dywedwyd wrthyfch fel arall.
- Rhowch wybod i ni os ydych yn cymryd **warffarin, apixaban neu deneuwyr gwaed eraill neu os oes gennych unrhyw anhwylder/problem waedu.**
- Rhowch wybod i ni os oes gennych **reoliadur y galon, diffibriliwr y galon, mewnbraniad yn y cochlea neu unrhyw ddyfais arall sydd wedi'i fewnblannu.**
- Rhowch wybod i ni am unrhyw wyliau wedi'u trefnu ac unrhyw adegau na fyddwch ar gael.
- Peidiwch â gwisgo gemwaith, colur ar eich wyneb na chwistrell wallt.
- Gwisgwch ddillad y bydd yn hawdd eu tynnu yn ôl yr angen.
- Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw symptomau COVID.

Yn ystod eich apwyntiad

- Bydd y llawfeddyg yn egluro'r driniaeth, yn gwneud yn siŵr eich bod yn deall ac yn rhoi amser i chi ofyn cwestiynau cyn llofnodi'r ffurflen gydsynio.
- Gall fod angen i chi dynnu dillad i ddatgelu'r ardal berthnasol.
- Bydd y llawfeddyg yn rhoi'r pigiadau o anesthetig lleol ac yn gwirio bod yr ardal yn ddideimlad cyn dechrau'r driniaeth.
- Ar ddiwedd y driniaeth, bydd rhwymyn yn cael ei roi dros y clwyf y bydd angen ei gadw'n sych am 2 ddiwrnod o leiaf, weithiau hyd at wythnos.

Ar ôl eich llawdriniaeth

- Cewch wybodaeth ysgrifenedig ar sut i ofalu am eich clwyf.
- Bydd angen tynnu'r pwythau ar ôl 7-10 diwrnod wedi'ch triniaeth.
- Gallwch gael apwyntiad yn yr Adran Dermatoleg ar gyfer tynnu'r pwythau neu newid y rhwymyn neu gall fod angen i chi drefnu'r rhain gyda'r nyrs ym mhractis eich meddyg teulu. Penderfynir ar hyn ar ddiwrnod y llawdriniaeth.
- Efallai y bydd rhai triniaethau (e.e. impiadau croen neu glwyfau agored) yn gofyn am newid y rhwymyn ddwywaith yr wythnos neu'n wythnosol yn unol â chynghor.
- Gall yr ardal fod yn boenus wrth i'r anesthetig lleol gilio. Rydym yn argymhell prynu paracetamol neu co-codamol dos isel i'w cymryd yn ôl yr angen.

- Mae'n rhaid i chi osgoi gweithgareddau egnïol am wythnos o leiaf wedi'r llawdriniaeth. Mae hyn yn cynnwys ymarfer corff, chwaraeon, gwaith tŷ trwm, codi, neu arddio.
- Byddwn fel arfer yn gofyn i chi brynu pot newydd o Vaseline i'w ddefnyddio ar y graith.

Os oes unrhyw gwestiynau eraill gennych ynglŷn â'ch apwyntiad, ffoniwch y rhif canlynol 01633 23464/01633238710.

Fel arall, gallwch anfon e-bost i: Abb.Skin@wales.nhs.uk

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English**